O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1338 (Cy.140)

Y PROFFESIWN MEDDYGOL, CYMRU

Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 2 a 4 o Reoliadau Erthylu 1991(**1**) ("y prif Reoliadau") er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn nheitl Prif Swyddog Meddygol Cymru o ganlyniad i sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**).

Maent hefyd yn diwygio rheoliadau 2 a 5 o'r prif Reoliadau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007(**3**) sy'n sefydlu bwrdd ystadegau annibynnol sy'n gyfrifol am swyddogaethau ystadegol a gafodd eu cyflawni'n flaenorol gan y Cofrestrydd Cyffredinol drwy'r gangen weinyddol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Nid oes asesiad o effaith reoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1991/499, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2879 (Cy.275)
(**2**) 2006 p.32
(**3**) 2007 p.18.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1338 (Cy.140)

Y PROFFESIWN MEDDYGOL, CYMRU

Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed *21 Mai 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *22 Mai 2008*

Yn dod i rym *17 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Erthylu 1967(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 17 Mehefin 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" *("the principal Regulations")* yw Rheoliadau Erthylu 1991(**2**).

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau, mewnosoder y diffiniadau canlynol yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

(**1**) 1967 p.87 ("y Ddeddf"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 2 o'r Ddeddf o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 1991/499 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2002/2879 (Cy.275).

""the Statistics Board" means the Statistics Board established under section 1 of the Statistics and Registration Service Act 2007(**1**);

"the Chief Medical Officer for Wales" means the Chief Medical Officer to the Welsh Assembly Government;".

Diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau

3. Yn rheoliad 4(2)(b) (sy'n ymwneud â hysbysiad o derfyniad a gwybodaeth ynghylch y terfyniad) o'r prif Reoliadau, yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Assembly Government".

Diwygio rheoliad 5 o'r prif Reoliadau

4. Yn rheoliad 5 (cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth) o'r prif Reoliadau —

(a) ym mharagraff (a)(i), yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Assembly Government";

(b) yn lle paragraff (a)(ii) rhodder—

"(ii) to the chairman of the Statistics Board or a member of the Statistics Board's staff who has been duly authorised by the chairman.".

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Mai 2008

(**1**) 2007 c.18.